
HSC(6) 33-24 Papur 1

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Mai 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: @SeneddYmchwil
Ymchwil y Senedd: ymchwil.senedd.cymru
Tanysgrifiwch: Cylchlythyr

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Mai 2024

**Awdur:**
Amy Clifton and Sian Thomas

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................ 1**

**2. Cipolwg ar y Bil ........................................ 3**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau ........................................ 5**

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)** ar 20 Mai 2024.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau er mwyn:

- cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu i blant sy'n derbyn gofal;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun digonolrwydd i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â llety i blant sy'n derbyn gofal, ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o lety a ddarperir gan endidau nid-er-elw, naill ai o fewn eu hardaloedd neu'n agos iddynt, i ddiwallu anghenion y plant hynny;
- galluogi Taliadau Uniongyrchol i gael eu cyflwyno ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG; a
- gwneud diwygiadau i sicrhau y gall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") weithredu yn llawn ac yn effeithiol.

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil yw Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol.

## Diben a nodau'r darpariaethau yn y Bil

Mae **Memorandwm Esboniadol y Bil (y Memorandwm)** yn nodi "Drwy'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i Diweddaru, mae Gweinidogion Cymru yn ceisio gwella gofal cymdeithasol, a'r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru ymhellach."

Mae'r Memorandwm yn dweud bod yr ymrwymiad i '**roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**' yn rhan glir o weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer newid y system gyfan. Y nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yng ngofal plant sy'n derbyn gofal (gan ddechrau gyda gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau maethu) yn creu elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, i sicrhau profiadau a chanlyniadau gwell i bobl ifanc.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys yr ymrwymiad i '**wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol**'. Yn ôl y Memorandwm, mae'r galw am newid polisi yn y maes hwn wedi bod yn cynyddu er mwyn "mynd

i'r afael â phryderon am annhegwch a diffyg llais a rheolaeth a wynebir gan bobl anabl a phobl ddifrifol wael". Bwriad y newidiadau arfaethedig yw sicrhau bod gan unigolion lais a rheolaeth gref dros eu gofal, p'un a yw'r gofal hwnnw'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r Memorandwm yn dweud y dylai'r newidiadau arwain at fwy o unigolion yn cytuno i gael asesiadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP), heb risg o golli'r hawl i daliadau uniongyrchol, ac felly bod eu hanghenion iechyd cymhleth yn cael eu rheoli'n well.

Bydd y Bil hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau i'r drefn o **reoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol**, er mwyn helpu o ran rheoleiddio a chefnogi'r gweithlu i weithredu'n fwy effeithiol. Mae'r Memorandwm yn dweud bod y gwelliannau arfaethedig yn anelu at fynd i'r afael â materion ac anghysondebau penodol yn Neddf 2016 i gryfhau ymarferoldeb y fframwaith rheoleiddio a chynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoleiddio.

Mae'r diwygiadau hyn yn effeithio ar nifer o feysydd, gan gynnwys rhoi pwerau newydd i AGC ofyn am wybodaeth gan ddarparwyr anghofrestredig, a rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru estyn y diffiniad cyfreithiol o weithwyr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant.

**Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog** ar 20 Mai 2024.

Mae'r Bil ar ei hynt drwy **broses ddeddfwriaethol y Senedd**. Bydd y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn ymgynghori ar y Bil ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth pellach dros y misoedd nesaf.

Mae'r Memorandwm yn cynnwys crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil, a gweithdrefnau craffu'r Senedd y byddant yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r Memorandwm hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhoi crynodeb o gostau a manteision amcangyfrifedig y Bil.

## Sut i ddefnyddio'r Crynodeb o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ac is-adran o'r Bil. Cynlluniwyd y ddogfen i dynnu sylw at y prif ddarpariaethau ac i'ch cyfeirio at fanylion pellach.

Mae rhagor o sylwadau am bob adran o'r Bil yn y **Nodiadau Esboniadol yn Atodiad 1 y Memorandwm.**

# 2. Cipolwg ar y Bil

Mae 30 o adrannau i'r Bil, wedi'u trefnu'n dair Rhan, ac mae iddo ddwy Atodlen.

**Rhan 1 – Gofal cymdeithasol:**

**Pennod 1: Cyfyngiadau ar elw wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant**

- Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir i blant (adrannau 2 – 9)
- Swyddogaethau awdurdod lleol mewn cysylltiad â llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (adrannau 10 – 13)

**Pennod 2: Diwygiadau yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol**

- Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: cofrestru etc. darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol (adrannau 14 – 16)
- Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: gwybodaeth ac arolygiadau (adran 17)
- Gweithwyr gofal cymdeithasol: cofrestru ac addasrwydd i ymarfer (adran 18 – 19)
- Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (adrannau 20 – 21)
- Gofal cymdeithasol: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol (adrannau 22)

Mae'r rhan hon o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud "mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol" mewn perthynas â'r Rhan hon, yn ôl y Nodiadau Esboniadol.

**Rhan 2 – Gofal iechyd**

- Trosolwg o Ran 2 (adran 23)
- Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd (cyflwyno taliadau uniongyrchol fel rhan o GIP) (adrannau 24 – 25)
- Darparu gwasanaethau iechyd gan awdurdodau lleol (adran 26)

Mae'r rhan hon o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud "mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol" mewn perthynas â darpariaethau Rhan 2, yn ôl y

Nodiadau Esboniadol.

## Rhan 3 – Cyffredinol

- Dehongli cyffredinol (adran 27)
- Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc. (adran 28)
- Dod i rym (adran 29)
- Enw byr (adran 30)

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 – Gofal cymdeithasol

### Pennod 1: Cyfyngiadau ar elw wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant

Mae Adran 1 yn rhoi trosolwg o Bennod 1:

- **Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant:** diwygio Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i gyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad").
- **Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â llety i blant sy'n derbyn gofal**: dyletswyddau i sicrhau digon o lety; dyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol; ceisiadau i Weinidogion Cymru i gymeradwyo 'lleoliad atodol' os na fydd lleoliad arall ar gael.

**Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir i blant**

Mae adran 2 **yn diwygio Deddf 2016 i fewnosod darpariaeth newydd sy'n diffinio ystyr "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad"** at ddibenion cyfyngu ar elw gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu.

Mae adran 3 yn diwygio Deddf 2016 i nodi **gofynion newydd ar gyfer ceisiadau i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.** Mae hyn yn cynnwys yr angen i fodloni dau amod, sef bod "amcanion neu ddibenion y person yn ymwneud yn anad dim â... lles plant, neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru"; a bod yn rhaid i'r darparwr berthyn i un o'r categorïau o endidau "nid-er-elw" a nodir ar wyneb y Bil.

Mae adran 4 yn mewnosod Atodlen newydd yn Neddf 2016 i nodi **trefniadau trosiannol** ar gyfer darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad sydd eisoes wedi eu cofrestru (a gofrestrwyd cyn cyflwyno'r gofynion 'nid-er-elw' newydd).

Mae Adran 5 yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â **chaniatáu neu wrthod cofrestriad**, i adlewyrchu'r gofynion 'nid-er-elw' newydd.

Mae adran 6 yn diwygio adran 9 o Ddeddf 2016 drwy gyflwyno ystyriaeth newydd y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth benderfynu a yw darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn berson addas a phriodol. Mae'r ystyriaeth newydd hon yn ymwneud â **'threfniadau ariannol sy'n ymwneud â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad'.** Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru bellach roi sylw i 'drefniadau ariannol afresymol neu anghymesur' y mae darparwr gwasanaeth sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn ymrwymo iddynt; ac a yw'r trefniant ariannol hwnnw yn tanseilio gallu'r darparwr gwasanaeth i 'ddilyn ei amcanion neu ei ddibenion' yn ymwneud â 'lles plant neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru'.

Mae Adran 7 yn diwygio Deddf 2016 i osod gofynion newydd ynghylch yr hyn y mae rhaid ei gynnwys yn **natganiad blynyddol** darparwr gwasanaeth. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gwybodaeth, a ragnodir gan Weinidogion Cymru, am dystiolaeth sy'n berthnasol i'r 'prawf person addas a phriodol'. Nid yw'r gofynion yn berthnasol i ddarparwyr y cyfeirir atynt yn y Memorandwm fel 'darparwyr etifeddol', y mae 'trefniadau trosiannol' yn berthnasol iddynt.

Mae adran 8 yn diwygio Deddf 2016 i gynnwys darpariaethau newydd ynghylch amrywio neu ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad.

Mae adran 9 yn cyflwyno gofyniad newydd bod rhaid i gofnodion yn y gofrestr darparwyr gwasanaethau ddangos bod y darparwr yn bodloni'r prawf 'person addas a phriodol' neu ei fod wedi'i eithrio yn ystod y cyfnod trosiannol a ddiffinnir yn Atodlen 1A.

### Swyddogaethau awdurdod lleol mewn cysylltiad â llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Mae **adran 10** yn diwygio adran 75 o Ddeddf 2014 i bennu bod rhaid i awdurdod lleol gymryd **"pob cam rhesymol i sicrhau" llety** ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn hytrach na "chamau sy'n sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol," fel y nodir ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2014. O dan is-adran 1, mae'n ofynnol i'r llety hwn fod "o fewn ardal yr awdurdod, neu'n agos iddi" yn hytrach na'r gofyniad presennol iddo fod "yn ardal yr awdurdod". Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod hyn yn "galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cartrefi plant newydd a lleoliadau gofal maeth newydd." Mae'r Nodiadau Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud bod y diwygiad hwn yn "cydnabod y gall amgylchiadau godi pan all plentyn sydd wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai'n cael ei leoli mewn rhan

wahanol o ardal yr awdurdod lleol."

Mae adran 11 yn diwygio Deddf 2014 i roi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i **lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol** cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r cynllun nodi'r camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o dan adran 75(1) o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd gan adran 10 o'r Bil). Rhaid iddo hefyd gynnwys amcangyfrif o nifer y plant y bydd yr awdurdod lleol yn gofalu amdanynt na fydd modd eu lleoli o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014; asesiad o'r llety sydd ar gael ac i ba raddau y mae hynny'n bodloni'r gofynion perthnasol; ac i ba raddau y mae'r llety hwnnw o fewn ardal yr awdurdod lleol, neu'n agos iddi. Rhaid i'r cynllun fod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau. Cyn cyhoeddi'r cynllun, rhaid i awdurdod lleol lunio drafft a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Mae adran 11 hefyd yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn os na chymeradwyir y cynllun.

Mae adran 12 yn diwygio'r ddyletswydd bresennol yn Neddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol **i awdurdodau lleol adrodd i Weinidogion Cymru yn flynyddol** i adlewyrchu'r ddyletswydd i sicrhau llety. Rhaid i'r adroddiad blynyddol a lunnir gan awdurdod lleol gynnwys gwybodaeth am sut y mae camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno wedi cynyddu, neu sut y disgwylir iddynt gynyddu, a faint o lety diogel sydd ar gael. Rhaid iddo hefyd nodi nifer y ceisiadau a wnaeth yr awdurdod lleol am gymeradwyaeth i leoli plant mewn 'lleoliadau atodol' o dan adran 13 o'r Bil.

Mae adran 13 **yn nodi'r ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya yn "y lleoliad mwyaf priodol"**. Yn y Nodiadau Esboniadol, dywed y gall lleoliad fod mewn "mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)"; nid oes cyfeiriad o'r fath yn Neddf 2014 nac yn y Bil. Rhaid i awdurdodau lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth i leoli plentyn sy'n derbyn gofal yn rhywle ac eithrio endid 'nid-er-elw' - y cyfeirir ato fel **"lleoliad atodol".** Mae'r Bil yn nodi'r camau y mae rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd os yw cais am "leoliad atodol" yn cael ei wrthod gan Weinidogion Cymru. Gall yr awdurdod lleol ailgyflwyno'r cais, gan esbonio'r rhesymau penodol os ydynt yn dal i ystyried y byddai lleoli'r plentyn gydag endid 'nid-er-elw' yn anghyson â phrif ddyletswydd yr awdurdod lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal o dan adran 78 o Ddeddf 2014.

## Pennod 2: Diwygiadau yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol

### Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: cofrestru etc. darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae adran 14 yn diwygio Deddf 2016 i newid y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (AGC) i gyflwyno a chyhoeddi datganiad blynyddol, ac yn lle hynny mae'n **gosod y ddyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau eu hunain**. Mae hefyd yn newid y Ddeddf fel bod methu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser a ragnodir yn drosedd.

Mae adran 15 yn diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gyda chais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth.

Mae adran 16 yn diwygio Deddf 2016 ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru (AGC) i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais, drwy **newid y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn**. Mae'n darparu bod rhaid dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig (yn hytrach na'r weithdrefn hysbysiad gwella), o dan rai amgylchiadau pan na fo unrhyw welliant yn bosibl.

Mae adran 17 yn diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig anghofrestredig ddarparu gwybodaeth.

### Gweithwyr gofal cymdeithasol: cofrestru ac addasrwydd i ymarfer

Mae adran 18 yn diwygio Deddf 2016 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau **ychwanegu gweithwyr gofal plant at y rhestr o weithwyr sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol, neu eu heithrio o'r rhestr honno,** at ddibenion Rhannau 3-8 o Ddeddf 2016.

Mae Adran 19 yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â gorchmynion interim ac adolygiadau mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae gorchmynion interim yn golygu y gellir gosod cyfyngiadau dros dro ar berson cofrestredig tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal i honiadau ynghylch ei addasrwydd i ymarfer. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i banel estyn gorchymyn interim am hyd at uchafswm o 18 mis, gan ddileu'r angen i wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer estyniadau o'r fath.

### Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol

Mae adran 20 yn diwygio Deddf 2014 i ategu'r ffyrdd y gall awdurdod lleol ddarparu taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu mewn perthynas â gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r diwygiadau'n **galluogi taliadau uniongyrchol i drydydd parti addas sydd wedi ei enwebu gan yr unigolyn** (oedolyn, plentyn neu ofalwr), ni waeth a oes gan yr unigolyn hwnnw alluedd meddyliol ai peidio (yn unol ag ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i gael a rheoli'r taliadau uniongyrchol eu hunain.

Mae adran 21 yn diwygio Deddf 2014 i egluro cwmpas cyfeiriadau yn yr adrannau hynny at 'orchymyn trefniadau plentyn'. Mae'r diwygiadau'n egluro bod y cyfeiriad at orchymyn trefniadau plentyn yn ymwneud â gorchmynion sy'n enwi'r person y mae'r plentyn i fyw gydag ef yn unig.

Mae adran 22 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ôl y Memorandwm.

## Rhan 2: Gofal iechyd

Mae adran 23 **yn rhoi trosolwg o Ran 2**. Mae'r Rhan hon yn gwneud diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") a Deddf Iechyd Meddwl 1983 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion yn lle darparu gwasanaethau gan y GIG neu ar ran y GIG i ddiwallu eu hanghenion.

Mae adran 24  yn **gwneud darpariaeth i ganiatáu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd** (i sicrhau gwasanaethau neu nwyddau a ddarperir o dan Ddeddf 2006 neu wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Mae'r diwygiadau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch a ellir gwneud taliadau uniongyrchol ai peidio, pryd a sut y gelir eu gwneud, a'r wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth a ddarperir mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol.

Mae adran 25 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ôl y Memorandwm.

Mae adran 26 yn diwygio Deddf 2014 i ymgorffori'r prawf statudol llawn a ddefnyddir i bennu terfyn pwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.

## Rhan 3: Cyffredinol

Mae adran 27 yn nodi'r dehongliadau cyffredinol o ran y Deddfau a grybwyllir yn y Bil.

Mae adran 28 yn ymdrin â darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol y caniateir eu gwneud drwy reoliadau.

Mae adran 29 yn nodi pryd y daw darpariaethau gwahanol yn y Bil i rym.

Mae adran 30 yn nodi enw byr y Bil (y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)).